

Polisi Corfforaethol - 09

Polisi Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru parthed

Lleihau Risg

(Cyfarwyddwr sy'n Gyfrifol: PSTC Darparu Gwasanaethau)

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod taw un o'i brif swyddogaethau a'i ddyletswyddau statudol yw cyflawni ei rôl wrth atal, addysgu a chyfathrebu â'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r dyletswyddau statudol hyn yn cynnwys:

- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004
- Y Gorchymyn Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) (Diwygiedig) 2017
- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cydnabod bod ganddo rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi gwahanol amcanion strategol y Llywodraeth wrth gyflawni canlyniadau gwell i'n cymunedau. Yn enwedig y rhai hynny a nodwyd o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cydnabod bod ganddo rôl allweddol i'w chwarae wrth gynorthwyo'r Llywodraeth i gyflawni ystod o amcanion strategol a anelwyd at wella canlyniadau i'n cymunedau. Yn enwedig, mae'r Gwasanaeth yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ac yn anwesu'i ddyletswyddau Economaidd-Gymdeithasol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws holl feysydd ei fusnes:

Atal


- I leihau nifer pob math o ddigwyddiadau brys a'u canlyniadau;
- I dargedu gweithgareddau atal yn unol â phroffiliau risg;
- I eithafu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy law partneriaethau a chydweithredu;
- Gweithgarwch lleihau risg deallus ac wedi'i dargedu sy'n seiliedig ar ddata ansoddol a meintiol a chudd-wybodaeth, gan gynnwys yr absenoldeb ohono, i sicrhau yr ymgysylltir â phob cymuned parthed gwaith ataliol.

Amddiffyn

- I sicrhau cydymffurfiaeth gyhoeddus â deddfwriaeth berthnasol drwy fodd rhaglenni arolygu sy'n seiliedig ar risg;
- I ddarparu tystiolaeth a chymorth i unrhyw erlyniadau arfaethedig;
- I ddylanwadu a datblygu polisi a chyfarwyddyd diogelwch tân mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill;
- I ymchwilio i ddigwyddiadau fel bo'n briodol.

Addysgu

- I helpu adeiladu cymunedau cryfach, iachach a mwy cynaliadwy;
- I ymgysylltu â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu;
- I addysgu cymunedau busnes i sicrhau diogelwch o fewn y gweithle.



Llofnodwyd:
PSTC Darparu Gwasanaethau

Dyddiad: 14/7/20